



15 Gorffennaf 2025

Annwyl Siân,

Diolch am y cwestiwn ysgrifenedig (**WQ96668**) a gyflwynwyd gennych i'w ateb erbyn 30/06/25:

'Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd Cabinet i ddileu yr ystyriaeth o 'werth gobeithiol' eiddo yng Nghymru er mwyn galluogi awdurdodau lleol i brynu tir ar gyfer adeiladu tai am brisiau mwy realistig?'

Dyma fy ateb:

Gall Gweinidogion Cymru weithredu newidiadau i ddileu'r ystyriaeth o 'werth gobeithiol' eiddo yng Nghymru mewn perthynas ag iawndal am gaffael gorfodol, fel y darperir ar ei gyfer yn adran 190 o Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023.

Rydym yn gweithio ar gyfres o reoliadau i weithredu'r diwygiadau hyn a byddaf yn eich diweddarw wrth i'r rhain symud ymlaen.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ac yn ateb eich cwestiwn.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.